# Rheoliadau Adeiladu (Cymru)

# Cylchlythyr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| Rhif y Cylchlythyr: | WGC 009/2018 | Dyddiad cyhoeddi: | 07 / 08 / 2018 |
|---|---|---|---|

| Statws: | Er gwybodaeth |
|---|---|
| Teitl: | Prawf drws tân |

**Cyhoeddwyd gan:**

Francois Samuel: Pennaeth Rheoliadau Adeiladu

| Cyfeiriwyd at: | Anfonwch ymlaen at: |
|---|---|
| Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Cymdeithas Arolygwyr Cymeradwy Corfforaethol<br>Cyngor y Diwydiant Adeiladu | Swyddogion Rheoli Adeiladu'r Awdurdodau Lleol<br>Arolygwyr Cymeradwy<br>Aelodau'r Cynulliad |


**Crynodeb:**

Pwrpas y Cylchlythyr hwn yw tynnu sylw at faterion ynghylch profion drysau tân.


**I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:**


| Colin Blick - Rheoliadau Adeiladu<br>Swyddfeydd Llywodraeth Cymru<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ | Llinell Uniongyrchol: 03000 628144<br>E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru<br>Gwefan: https://gov.wales/topics/planning/buildingregs/?lang=cy |
|---|---|



WG32124

© Hawlfraint y Goron 2016

OGL

**PRAWF DRWS TÂN**

Pwrpas y Cylchlythyr hwn yw tynnu sylw at faterion ynghylch profion drysau tân.

**Cwmpas y Cylchlythyr hwn**

Mae'r canllawiau yn y Cylchlythyr hwn yn gysylltiedig ag adeiladau a gwaith adeiladu yng Nghymru.

**Cyflwyniad**

Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn cynnal cyfres o brofion perfformiad o ddrysau tân yn erbyn y safonau perfformiad a nodir yn Nhabl B1 o Atodiad B, Ddogfen Gymeradwy rhan B (Diogelwch Tân). Maent wedi profi drysau o chwe chyflenwr.

Yn anffodus, mae drysau a ddarparwyd gan bump o'r cwmnïau hyn wedi methu. Mae Llywodraeth y DU yn cymryd nifer o gamau ynglŷn â'r sefyllfa.

**Dogfen Gymeradwy B**

Mae'r canllawiau yn Atodiad B o'r Ddogfen Gymeradwy B (y ddwy gyfrol) yn nodi'r safonau o ymwrthedd tân ar gyfer drysau tân mewn safleoedd amrywiol. Mae hefyd yn nodi: "The requirement (in either case) is for test exposure from each side of the door separately" (note – the exception to this is lift doors). Ar gael yn Saesneg yn unig.

Fodd bynnag, daeth i sylw Llywodraeth y DU fod rhai setiau drws gwrthsefyll tân yn cael eu marchnata ar sail prawf ymwrthedd tân sengl ar un ochr y drws.

Nid yw rhan fwyaf o setiau drws yn wirioneddol gymesur ac felly, mae profion ar y ddwy ochr yn angenrheidiol i ddangos cydymffurfiaeth ar ddogfen gymeradwy. Mae hyn yn wir am adeiladwaith drysau cymhleth fel y rhai yn setiau drws gwydr dwbl neu gyfansawdd.

Atgoffir Cyrff Rheoli Adeiladu am y canllawiau ym mharagraff 1 o Atodiad B sy'n datgan y dylid gwirio'n ofalus y prawf dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gadarnhau'r statws ymwrthedd tân am y drws neu'r caead. O ystyried y goblygiadau diogelwch y cyhoedd, dylai'r cyrff rheoli adeiladu gwirio bod prawf tystiolaeth wedi'i chyflwyno o'r amlygiad i dân i ddwy ochr y drws, er mwyn dangos cydymffurfiaeth â gofynion Dogfen Gymeradwy B.

Bydd Llywodraeth y DU yn ysgrifennu i labordai profi ar hyd llinellau tebyg i ystyried y cyngor hwn yn ofalus wrth gynghori eu cleientiaid ar ba brofion sy'n angenrheidiol er mwyn dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau rheoliadau adeiladu.

**YMHOLIADAU**

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiad ar faterion a gwmpesir gan y Cylchlythyr hwn at:

Rheoliadau Adeiladu
Llywodraeth Cymru
Llawr 1af, Gogledd
Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Ffôn: 03000 628144
E-bost: enquiries.brconstruction@llyw.cymru

Yn gywir



**Francois Samuel**
**Pennaeth Rheoliadau Adeiladu**
**Llywodraeth Cymru**